

Gosber ar Gân

**Y Pedwerydd Sul wedi'r Drindod**

10 Gorffennaf 2022 am 3.30pm

Choral Evensong

**The Fourth Sunday after Trinity**

10 July 2022 at 3.30pm

Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*



# *Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan  
lle safodd Deiniol bron i  
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn  
525, bu iddo gynnull o'i  
gwmpas gymuned lawn  
ffydd, gobaith a chariad,  
gan godi o'i chwmpas  
ffens gyll-y **bangor**  
gwreiddiol—iddi'n gysgod  
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch  
chwithau, hefyd, eich  
cofleidio yma gan yr un  
ffydd, gobaith a chariad  
a gyhoeddir genpym  
heddiw ac sy'n ein  
cyfareddu o hyd.

# *Welcome to Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.*

You stand now where  
Deiniol stood almost a  
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he  
gathered around him a  
community of faith, hope  
and love, and raised  
around it a hazel fence—  
the original **bangor**—for  
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,  
too, will be embraced  
here by the same faith,  
hope and love that we  
proclaim and live by  
today.

# *Yn y Gosber*

Mae i oedfa'r Gosber ar Gân wreiddiau dwfn. Mae'n waddol o fuchedd gweddi y mynachlogydd Benedictaidd, lle roedd treigl oriau'r dydd yn esgor ar weddi ar y cyd. Daw'r ffurf a ddefnyddiwn heddiw o Lyfr Gweddi Gyffredin yr unfed ganrif ar bymtheg, lle cyfunwyd dau o'r oedfaon mynachaidd hynafol i ffurffio oedfa i'w hoffrymu'n blwyfol ar drefyn dydd, ac mewn cadeirlannau ar gân.

Yn ein Gosber, byddwn yn gwrando ar lithoedd o'r Hen Testament a'r Newydd, ac yn canu'r ddwy gân hwyrol o'r Efengyl yn ôl Sant Luc – y *Magnificat* (cân am ein hyder yn addewid oesol Duw) a'r *Nunc dimittis* (cân am ein cyflawniad yng ngholeuni oesol Crist). Mae gweddi ar gân ac ar goedd, a sain yr anthem, yn ein dwyn, galon a meddwl, tuag at Dduw.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Fe'ch gwahoddir i fynd â'r Ilyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo.

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn newydd, gan gynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilnwch y cod QR i ddarllen arlein.



# *At Evensong*

The service of Choral Evensong has deep roots. It is an inheritance from the prayer life of Benedictine monasteries, where the turning of the hours of the day was marked by communal prayer. The service we know today is from the sixteenth-century Book of Common Prayer, in which two of the ancient monastic observances were combined to form a service to mark the end of the day – and “in quires and places where they sing,” to do so chorally.

At Evensong, we listen to lessons from the Old and New Testaments, and sing the two evening songs from the Gospel According to Saint Luke – the *Magnificat* (a song about our confidence in God's enduring promise) and the *Nunc dimittis* (a song of about our fulfilment in Christ enduring light). Sung and spoken prayer, and the music of an anthem, draw us heart and mind to God.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✕. Other directions (rubrics) are offered **in red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains.

**Buchedd Bangor** is our new magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy of today, or follow the QR code to read online.

# *Trefn Order*



Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch | We stand as the bell is rung



## *Cynnill Gathering*

### Deisyfiadau Preces

℣ ✕ O lôr, rho i'n gwefus gân.

℟ Aed yn bêr hyd y nef ein mawl.

℣ ✕ O Dduw, cofleidia'n hadfyd.

℟ O Grist, dy ras yw'n golud.

℣ Gogoniant fo i Dduw Dad, ac i Dduw'r Mab,  
ac i Dduw'r Ysbryd Glân,

℟ Fel yr oedd yn y dechreuad, mae'n awr, a'n fythol y bydd;  
yn oes oesoedd. Amen.

℣ Molwch yr lôr.

℟ Addolwn ein Duw.

### Cerddoriaeth | Music

Plaengan | Plainsong

### Translation

℣ ✕ O Lord, open thou our lips. ℟ And our  
mouth shall shew forth thy praise. ℣ ✕ O God,  
make speed to save us. ℟ O Lord, make haste  
to help us. ℣ Glory be to the Father, and to  
the Son, and to the Holy Ghost. ℟ As it was in  
the beginning, is now, and ever shall be, world  
without end. Amen. ℣ Praise ye the Lord. ℟ The  
Lord's Name be praised.

## Brawddeg Sentence

"Anfonais chwi i fedi cynhaeaf nad ydych wedi llafurio amdano. Eraill sydd wedi llafurio, a chwithau wedi cerdded i mewn i'w llafur."

### Translation

"I sent you to reap that for which you did not labour. Others have laboured, and you have entered into their labour."

## Emyn Hymn



**T**he day thou gavest, Lord, is ended,  
the darkness falls at thy behest;  
to thee our morning hymns ascended,  
thy praise shall sanctify our rest.

Diolchwn fod dy Eglwys effro  
i'r ddaear ddu yn llusern dlos;  
trwy'r cread maith mae hon yn gwyllo  
heb orffwys byth na dydd na nos.

Dros bob rhyw ynys a chyfandir,  
yn gyson megis gwawr y dydd,  
ei chân o fawl i ti a glywir,  
ac nid oes baid ar weddi'r ffydd.



**The sun that bids us rest is waking  
our brethren 'neath the western sky,  
and hour by hour fresh lips are making  
thy wondrous doings heard on high.**

**So be it, Lord; thy throne shall never,  
like earth's proud empires, pass away;  
thy kingdom stands, and grows for ever,  
till all thy creatures own thy sway.**

**Translation**

*We thank thee that thy Church unsleeping, while  
earth rolls onward into light, through all the  
world her watch is keeping, and rests not now  
by day or night. / As o'er each continent and  
island the dawn leads on another day, the voice  
of prayer is never silent, nor dies the strain of  
praise away.*

**Geiriau | Words**

John Ellerton (1826-1893)

**Cyfieithiad | Translation**

R. D. Roberts (1912-1993)

**Cerddoriaeth | Music | “St Clement”**

Clement Scholefield (1839-1904)

**Eisteddwn | We sit**

# Gair Word

## Salmyddiaeth Psalmody

God standeth in the council of heaven: in the midst of the gods he giveth judgement.

"How long will ye judge unrighteously: and respect the persons of the ungodly?

Defend the poor and fatherless: see that such as are in need and necessity have right.

Deliver the afflicted and poor: save them from the hand of the ungodly."

They know not neither do they understand, but go about in darkness: all the foundations of the earth are shaken.

"I say unto you 'Though ye be gods: and all of you sons of the Most Highest,

Nevertheless ye shall die like men: and fall like one of the princes.'"

Arise O God and judge thou the earth: for thou shalt take all nations for thy possession.

## Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost; as it was in the beginning, is now and ever shall be; world without end. Amen.

**Salm | Psalm 82**  
**Cerddoriaeth | Music**  
Thomas Attwood (1765-1838)

## Eisteddwn | We sit



## Llith Lesson

Here begins the seventh verse of the seventh chapter of the Book of the Prophet Amos.

This is what he showed me: The Holy One was standing beside a wall built with a plumb-line, with a plumb-line in his hand. And the Living One said to me, "Amos, what do you see?" And I said, "A plumb-line." Then the Eternal One said, "See, I am setting a plumb-line in the midst of my people Israel; I will never again pass them by; the high places of Isaac shall be made desolate, and the sanctuaries of Israel shall be laid waste, and I will rise against the house of Jeroboam with the sword." Then Amaziah, the priest of Bethel, sent to King Jeroboam of Israel, saying, "Amos has conspired against you in the very centre of the house of Israel; the land is not able to bear all his words. For thus Amos has said, 'Jeroboam shall die by the sword, and Israel must go into exile away from his land.'" And Amaziah said to Amos, "O seer, go, flee away to the land of Judah, earn your bread there, and prophesy there; but never again prophesy at Bethel, for it is the king's sanctuary, and it is a temple of the kingdom." Then Amos answered Amaziah, "I am no prophet, nor a prophet's son; but I am a herdsman, and a dresser of sycamore trees, and the Holy One took me from following the flock, and the Living One said to me, 'Go, prophesy to my people Israel.' Now therefore hear the word of the Eternal One. You say, 'Do not prophesy against Israel, and do not preach against the house of Isaac.' Therefore, thus says the Holy One: 'Your wife shall become a prostitute in the city, and your sons and your daughters shall fall by the sword, and your land shall be parcelled out by line; you yourself shall die in an unclean land, and Israel shall surely go into exile away from its land.'"

Here ends the First Lesson.

**Amos 7:7-17**

Codwn ar ein traed | We stand

## Magnificat

 My soul doth magnify the Lord. And my spirit hath rejoiced in God my Saviour. For he hath regarded the lowliness of his handmaiden; for behold, from henceforth, all generations shall call me blessed. For he that is mighty hath magnified me: and holy is his Name. And his mercy is on them that fear him: throughout all generations. He hath shewed strength with his arm; he hath scattered the proud in the imagination of their hearts. He hath put down the mighty from their seat, and hath exalted the humble and meek. He hath filled the hungry with good things, and the rich he hath sent empty away. He remembering his mercy hath holpen his servant Israel, as he promised to our forefathers, Abraham and his seed for ever. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

**Cerddoriaeth | Music**

**Gwasanaeth Faux Bourdon | Fauxbourdon Service,**

Thomas Morley (1557-1602)

**Eisteddwn | We sit**



## Llith Lesson

Yma y mae yn dechrau pumed adnod ar hugain degfed bennod yr Efengyl yn ôl Sant Luc.

**B**ryd hynny: Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf arno, gan ddweud, "Athro, beth a wnaf i etifeddu bywyd tragwyddol?" Meddai ef wrtho, "Beth sy'n ysgrifenedig yn y Gyfraith? Beth a ddarllen i di yno?" Atebodd yntau, "'Câr y Sanctaidd Un dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun.'" Meddai ef wrtho, "Atebaist yn gywir; gwna hynny, a byw fyddi." Ond yr oedd ef am ei gyfiawnhau ei hun, ac meddai wrth lesu, "A phwy yw fy nghymydog?" Atebodd lesu, "Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi amdano a'i guro, aethant ymaith, a'i adael yn hanner marw. Fel y digwyddodd, yr oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. Yr un modd daeth Lefiad hefyd at y man; gwelodd ef, ac aeth heibio o'r ochr arall. Ond daeth teithiwr o Samariad ato; pan welodd hwn ef, tosturiodd wrtho. Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.' P'rwn o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai lesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

Yma y terfyn yr Ail Lith.

#### **Translation**

At that time: A lawyer stood up to test Jesus. "Teacher," he said, "what must I do to inherit eternal life?" He said to him, "What is written in the law? What do you read there?" He answered, "You shall love the Holy One your God with all your heart, and with all your soul, and with all your strength, and with all your mind; and your neighbour as yourself." And he said to him, "You have given the right answer; do this, and you will live." But wanting to justify himself, he asked Jesus, "And who is my neighbour?" Jesus replied, "A man was going down from Jerusalem to Jericho, and fell into the hands of robbers, who stripped him, beat him, and went away, leaving him half dead. Now by chance a priest was going down that road; and when he saw him, he passed by on the other side. So likewise a Levite, when he came to the place and saw him, passed by on the other side. But a Samaritan while travelling came near him; and when he saw him, he was moved with pity. He went to him and bandaged his wounds, having poured oil and wine on them. Then he put him on his own animal, brought him to an inn, and took care of him. The next day he took out two denarii, gave them to the innkeeper, and said, 'Take care of him; and when I come back, I will repay you whatever more you spend.' Which of these three, do you think, was a neighbour to the man who fell into the hands of the robbers?" He said, "The one who showed him mercy." Jesus said to him, "Go and do likewise."

**Luc | Luke 10:25-37**

**Codwn ar ein traed | We stand**



## Nunc Dimitis

 Lord, now lettest thou thy servant depart in peace according to thy word. For mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

**Cerddoriaeth | Music**

**Gwasanaeth Faux Bourdon | Fauxbourdon Service,**

Thomas Morley (1557-1602)

**Parhawn ar ein traed, a throi i wynebu'r Dwyrain | We stand, turning to face East**

## Credo'r Apostolion Apostles' Creed

I believe in God  
**the Father Almighty,**  
**Maker of heaven and earth:**  
**and in Jesus Christ his only Son our Lord,**  
**who was conceived by the Holy Ghost,**  
**born of the Virgin Mary,**  
**suffered under Pontius Pilate,**  
**was crucified, dead, and buried;**  
**he descended into hell;**  
**the third day he rose again from the dead,**  
**he ascended into heaven,**  
**and sitteth on the right hand of God the Father Almighty;**  
**from thence he shall come to judge**  
**the quick and the dead.**  
I believe in the Holy Ghost;  
the holy catholic Church;  
the communion of saints;  
the forgiveness of sins;  
✉ the Resurrection of the body,  
and the Life everlasting.  
Amen.

Parhawn ar ein traed, gan droi o'r Dwyrain | We stand, turning from the East



# Gweddiau Prayers

## Litani Leiaf Lesser Litany

The Lord be with you.  
And with thy spirit.

Let us pray.

### Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Lord, have mercy upon us.  
Christ, have mercy upon us.  
Lord, have mercy upon us.

**E**in Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy Enw,  
deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly  
ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a  
maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg.  
Amen.

#### Translation

*Our Father, who art in heaven, hallowed be  
thy Name, thy kingdom come, thy will be done,  
in earth as it is in heaven. Give us this day our  
daily bread; and forgive us our trespasses, as we  
forgive those who trespass against us; and lead  
us not into temptation, but deliver us from evil.  
Amen.*

O Lord, shew thy mercy upon us;  
And grant us thy salvation.

O Lord, save the Queen;  
And mercifully hear us when we call upon thee.

Endue thy ministers with righteousness;  
And make thy chosen people joyful.

O Lord, save thy people;  
And bless thine inheritance.

Give peace in our time, O Lord;  
Because there is none other that fighteth for us,  
but only thou, O God.

O God, make clean our hearts within us;  
And take not thy Holy Spirit from us.

### Gweddiau Casgl Collects

**R** hagflaena ni, O Dduw, â’th ragorol ras, a hyrwydda ni  
â’th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd  
o’u dechrau i’w diwedd ynot ti y gogoneddwn dy Enw  
sanctaidd, a chael yn y diwedd gan dy drugaredd fywyd  
tragwyddol; trwy lesu Grist ein Gwaredwyr. Amen.

**O** God, from whom all holy desires, all good counsels, and  
all just works do proceed; give unto thy servants that  
peace which the world cannot give; that our hearts may  
be set to obey thy commandments, and also that by thee, we,  
being defended from the fear of our enemies, may pass our  
time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ  
our Saviour. Amen.

**L** ighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by  
thy great mercy defend us from all perils and dangers of  
this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus  
Christ. Amen.

#### Translation

*Go before us, O God, with your most gracious  
favour, and further us with your continual help;  
that in all our works, begun, continued, and  
ended in you, we may glorify your holy Name,  
and finally by your mercy obtain everlasting life;  
through Jesus Christ our Saviour. Amen.*

**Cerddoriaeth | Music**  
Plaengan | Plainsong

Eisteddwn | We sit



## Anthem

If ye love me, keep my commandments. And I will pray the Father, and he shall give you another comforter, that he may 'bide with you forever; e'en the spirit of truth.

### Geiriau | Words

Ivan | John 14:15–17

### Cerddoriaeth | Music

Thomas Tallis (c.1505–1585)

**Penliniwn neu eisteddwn** | We kneel or sit

## Gweddïau Prayers

**Ceir gweddïau** | Prayers are said

**Ar derfyn y gweddïau** | The prayers conclude

Let us pray together.

**The ✠ grace of our Lord Jesus Christ,  
and the love of God,  
and the fellowship of the Holy Ghost,  
be with us all evermore.  
Amen.**

**Codwn ar ein traed** | We stand

# *Ymadael Departing*

## Emyn Hymn



**B**lest are the pure in heart,  
for they shall see our God;  
the secret of the Lord is theirs,  
their soul is Christ's abode.

Daeth bywyd in a hedd  
trwy Grist a'i ryfedd ras:  
Dyw hollalluog er ein mwyn  
a wisgodd agwedd gwas.

Still to the lowly soul  
he doth himself impart,  
and for his dwelling and his throne  
chooseth the pure in heart.

O Arglwydd, yn dy ras,  
a'th fendith arnom ni,  
glanha ein calon fel y bo  
yn addas deml i ti.

### Translation

Life and peace came to us through Jesus Christ  
and his wonderful grace: almighty God for our  
sake wore the attitude of a servant. / O Lord, in  
thy grace, and thy blessing upon us, cleanse our  
heart that it be a suitable temple for thee.

### Geiriau | Words

John Keble (1792-1866)

### Cyfeithiad | Translation

Thomas Davies (1859-1952)

### Cerddoriaeth | Music | “Franconia”

Johann Balthasar König (1691-1758)

Parhawn ar ein traed | We remain standing



## Bendith Blessing

**B**ydded i gariad Crist lesu eich dwyn ato'i hun; bydded i'w rym eich cynnal yn ei wasanaeth, a'i orfoledd lenwi'ch calon; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

**Amen.**

### Translation

*May the love of Jesus Christ draw you to himself;  
may his power strengthen you in his service;  
and may his joy fill your hearts; and the blessing  
of God Almighty, the Father, ✠ the Son and the  
Holy Ghost, be among you and remain with you  
always. Amen.*

## Gollyngiad Dismissal

Y Duw a fo gyda chwi.

R A'th gadw di yng nghariad Crist.

Y Bendithiwn yr lôr.

R Diolch a fo i Dduw.

### Translation

Y The Lord be with you. R And with thy spirit. Y  
Let us bless the Lord. R Thanks be to God.

### Cerddoriaeth | Music

Plaengan | Plainsong

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael | We remain standing until  
the ministers have departed

Offrymddarn ar yr organ | Organ voluntary

Echo fantasia in D Dorian | Ffantasia atsain yn D Doriaidd,

Jan Pieterszoon Sweelinck (1562-1621)

# Hysbys



## Côr gwadd

Mae'n wych y bydd ein darpariaeth gorawl yn parhau dros fisoedd yr haf, er ar batrwm ysgafnach nac yn ystod y tymor corawl llawn. Byddwn hefyd yn croesawu ambell gôr gwadd, gan ddechrau ddydd lau, pan fydd Côr Coleg Sant Ffransis Siafier, Lerpwl yn canu yn ystod ein Gosber ar Gân.

## Cyfres bregethu

### “Fel coeden a blannwyd ar lan dyfroedd” Jeremeia 17:8

Dyma barhau heddiw â'n cyfres bregethu newydd ar fore Sul. Mae'r Proffwyd Jeremeia yn dychmygu bywyd wedi'i fyw'n ein gyflawnder – gweledigaeth o'r ddynoliaeth wedi'i phlannu ym mhridd da Duw, wedi'i chynnal drwy wres a sychder gan ffrydiau o ddŵr bywiol, ac yn dwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da. Galwad lesu Grist i bob un ohonom, yn yr un modd, yw dilyn yn ei ffyrdd da ef, gan geisio'r hyn sy'n dda â'n holl nerth, a dewis y da mewn gweithredoedd pendant – a'n nod yn hyn oll fydd ymdebygu i Grist, i Dduw. Yn ein pregethau bore Sul dros yr wythnosau hyn, byddwn yn myfyrio ar y ffynonellau sy'n ein helpu i ddirnad beth sy'n foesegol a da, a byddwn yn ystyried y rhinweddau hynny sy'n caniatáu inni feddwl, teimlo a gweithredu dros Dduw ac er daioni.

## “The Very Gate of Heaven”

Mae llyfr newydd Canon Michael Outram, “The Very Gate of Heaven: The Musicians and Music of Bangor Cathedral”, yn adrodd hanes Côr y Gadeirlan o'r dyddiau cynnar hyd 1969. Mae'n waith pwysig a chynhwysfawr, ac yn hanes lliwgar. Mae copiâu ar gael ar werth ar ôl gwasanaethau'r Sul am bris o £7 (gyda thaliad gydag union arian parod neu gerdyn / taliad digyswllt, os gwelwch yn dda).

## Cyd-Bererinion y Gadeirlan

Ein bwriad yw ail-lansio Cyfeillion y Gadeirlan dan deitl “Cyd-Bererinion y Gadeirlan”. Dyma gyfle i rai o bell ac agos ddod yn rhan o fywyd y Gadeirlan, gan gyfranogi o'i hysbrydolrwydd, gan gefnogi ei datblygiad, a chan gyd-deithio gyda ni oll fel cyd-bererinion. Ein nod yw dathlu'r Sul hwn yn 2023, a hithau'n ddiwedd "tymor" y Côr, fel dydd gŵyl y Cyd-Bererinion. Os hoffech fod yn rhan o arwain y fenter hon, cysylltwch â'r Is-Ddeon.

## Datganiadau Paned

Pob dydd Iau  
11.15am am 45 munud  
Paned a chacen o 10.45am

## 14 Gorffennaf | Tom Howells |

Clarinét

Ymunwch â Tom, gyda'i gyfeilydd David Arthur, ar gyfer rhaglen o Gerddoriaeth y clarinét o'r 20fed Ganrif, gyda cherddoriaeth yn amrywio o sgorau ffilm i Klezmer.

## 21 Gorffennaf | Amy Irvine | Ffliw

Mae Amy yn perfformio rhaglen o gerddoriaeth o'r Unol Daleithiau i Awstralia, gan ddwyn i gof luniau o diroedd pell ac agos.

## **28 Gorffennaf | Daniel Pett | Viola**

Mae Daniel Pett ac Alex Dakin, sydd wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynnyddoedd lawer, yn dod â rhaglen syrpresi o gerddoriaeth i'r fiola a'r piano, gan ddod â'n cyfres o ddatganiadau haf i ben.

## **Cyfarfodydd Cynulleidfaol**

Cynhelir Cyfarfodydd Cynulleidfaol yn y Gadeirlan am 6.30pm, ar ôl Gosber (am 5.30pm) ar y dyddiau canlynol: 29 Medi, 8 Rhagfyr.

# ***Yr wythnos***

## **Dydd Llun | Monday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **Dydd Mawrth | Tuesday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## **Dydd Mercher | Wednesday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **Dydd Iau | Thursday**

**11.15am** Datganiad Paned | Coffee-break Recital

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## **Dydd Gwener | Friday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **Dydd Sadwrn | Saturday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **17 Gorffennaf | Y Pumed Sul**

### **wedi'r Drindod**

## **17 July | The Fifth Sunday after Trinity**

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun Cymry I, Harper; Partita Sopra, Pasquin

## **11.00am** Choral Holy Eucharist

Communion Service, Merbecke; Ave Verum, Mozart; Voluntary in D major, Berg

## **3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Fauxbordon Service, Ley; Oculi omnium, Wood; Antiphon, Chausson

# ***Ein gweddi***

**Ein cymuned** Ysbyty Gwynedd, meddygfeidd ein cymunedau, a staff yr NHS


**Ein hesgobaeth** Ardal Weinidogaeth Bro Cymer

**Yn glâf** Sarah Jones; Joy Levine, offeiriad; Glenys Dore; Mark Roberts; Troy Eagleston; Param Cumaraswamy; Davinder Cumaraswamy

**A fu farw'n ddiweddar** Ann Elisabeth Jones; Catherine Baxter; Chris Gower; Brendan Rogers

**Gŵyl goffa** Morfydd Rees (10)

# Notices



## Visiting choir

We're delighted that our choral provision will continue over the summer months, albeit in a lighter mode than during the full choral season. We will also welcome the occasional guest choir, starting on Thursday, when the Choir of St Francis Xavier's College, Liverpool will sing during our Choral Evensong.

## Sermon series

**"Like a tree planted by water"**  
**Jeremiah 17:8**

This Sunday we hear the second sermon in our new sermon series at our Sunday morning services. Jeremiah the Prophet imagines a life well-lived – a vision of humanity planted in God's good soil, refreshed in heat and drought by streams of living water, and bearing the fruit of good works. Jesus Christ's call to all of us, likewise, is to follow in his good ways, to pursue the good with all our powers, and to choose the good in concrete actions – and our goal in all of this, to become Christ-like, like God. In our Sunday morning sermons over these weeks, we will reflect on the sources that help us to discern what is ethical and good, and we will consider those virtues that allow us to think, feel and act for God and for good.

## "The Very Gate of Heaven"

Canon Michael Outram's new book, "The Very Gate of Heaven: The Musicians and Music of Bangor Cathedral", tells the story of the Cathedral Choir from the earliest days until 1969. It's an important and comprehensive work, and a colourful history. Copies are available for sale after Sunday services at a price of £7 (with payment by exact cash or card / contactless payment, please).

## Pilgrim-Friends of the Cathedral

We intend to relaunch the Friends of the Cathedral under the title of "Pilgrim-Friends of Saint Deiniol's Cathedral". This is an opportunity for those from far and wide to become part of the life of the Cathedral, participating in its spirituality, supporting its development, and travelling with us all as fellow pilgrims. We aim to celebrate this Sunday in 2023, marking as it does the end of the Choir's "term", as the festival day of the Pilgrim-Friends. If you would like to be involved in leading this initiative, please contact the Sub-Dean.

## Coffee-break Recitals

Thursdays  
11.15am for 45 minutes  
Tea, coffee and cake from 10.45am

### **14 July | Tom Howells | Clarinet**

Join Tom, with his accompanist David Arthur, for a programme of 20th century clarinet music, with music ranging from film scores to Klezmer.

### **21 July | Amy Irvine | Flute**

Amy brings a programme of music from the US to Australia, evoking pictures of lands near and far.

## **28 July | Daniel Pett | Viola**

Daniel Pett and Alex Dakin, who have worked together for many years, bring us a surprise programme of music for viola and piano to draw our summer recital series to a close.

## **Congregational Meetings**

Congregational Meetings will take place in the Cathedral at 6.30pm, after Evensong (at 5.30pm) on the following days: 29 September, 8 December.

---

# *This week*

## **Dydd Llun | Monday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **Dydd Mawrth | Tuesday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral  
Evensong

## **Dydd Mercher | Wednesday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **Dydd Iau | Thursday**

**11.15am** Datganiad Paned | Coffee-break Recital

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral  
Evensong

## **Dydd Gwenner | Friday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **Dydd Sadwrn | Saturday**

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## **17 Gorffenaf | Y Pumed Sul**

### **wedi'r Drindod**

## **17 July | The Fifth Sunday after Trinity**

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun Cymry I, Harper; Partita Sopra,  
Pasquin

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Communion Service, Merbecke; Ave  
Verum, Mozart; Voluntary in D major,  
Berg

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral  
Evensong

Fauxbordon Service, Ley; Oculi  
omnium, Wood; Antiphon, Chausson

---

# *Our prayers*

**Our community** Ysbyty Gwynedd, our local surgeries, and NHS staff

**Our diocese** The Ministry Area of Bro Cymer

**The sick** Sarah Jones; Glenys Dore; Mark Roberts; Troy Eagleston; Param Cumaraswamy; Davinder Cumaraswamy

**The recently departed** Ann Elisabeth Jones; Catherine Baxter; Chris Gower; Brendan Rogers

**Year's mind** Morfydd Rees (10)



## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

### Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn peregl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgychleiddedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

### Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwth o'r sgrin y Cwir.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

### Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfysty â'ch caniatâd i gael eich cynwys mewn unrhyw ffilmio, tynnw lluniau, recordio sain neu ddarlu. Os nad ydych am i ffotograff onochon chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

### Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchrir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o Llyfr Gweddi Gyffredin (1662). Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar The New Revised Standard Version of the Bible ac Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig.

Mae delwedd y clawr yn fanylyn o ddarlu gan yr arlunydd Americanaidd cyfoes, Yvonne Jacquette.

## The Cathedral & Metropolitical Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

### Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

### Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

### Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Some of our services are streamed on Facebook from a camera at the east end of the Nave facing east, and the recording made available thereafter on the Cathedral's Facebook page. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

### Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662)**. The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

The cover image is a detail of a work by the contemporary American artist, Yvonne Jacquette.